

# Adroddiad ar Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (lle rhoddwyd rhybudd)

Clinic 10, Bretton

Dyddiad yr arolygiad: 10 Tachwedd 2025

Dyddiad cyhoeddi: 10 Chwefror 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

ISBN Digidol 978-1-83745-038-1

© Hawlfraint y Goron 2026

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

|    |  |    |
|----|--|----|
| 1. | Yr hyn a wnaethom .....  | 5  |
| 2. | Crynodeb o'r arolygiad .....   | 6  |
| 3. | Yr hyn a nodwyd gennym .....   | 8  |
|    | • Ansawdd Profiad y Claf .....   | 8  |
|    | • Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....                               | 11 |
|    | • Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....                              | 15 |
| 4. | Y camau nesaf .....  | 16 |
|    | Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ..... | 17 |
|    | Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....                              | 18 |
|    | Atodiad C - Cynllun gwella .....   | 19 |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Clinic 10, Bretton ar 10 Tachwedd 2025.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 29 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod y staff yn Clinic 10 yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion mewn amgylchedd dymunol.

Roedd yr ystafell drin yn lân ac yn daclus ac yn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu cynnal. Roedd ymgynghoriadau trylwyr cyn triniaethau yn sicrhau bod y cleifion yn deall y triniaethau a ddarperir a'r canlyniadau disgwylidig.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd glân a dymunol iawn
- Mynediad lefel heb unrhyw risiau ym mhob rhan o'r gwasanaeth i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y clinig yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac roedd trefniadau glanhau effeithiol ar waith.

Roedd Cynghorydd Diogelu rhag Laserau penodedig ac roedd Rheolau Lleol cyfredol, adroddiad ar ymweliad ac asesiad risg ar waith. Roedd protocolau trin cynhwysfawr ar waith. Roedd cofnodion y cleifion yn gynhwysfawr, yn drefnus ac yn cael eu cadw'n ddiogel.

Roedd y gweithredwr wedi cwblhau hyfforddiant priodol a dywedodd ymatebwr i holiadur AGIC eu bod yn hyderus bod y gweithredwr yn wybodus ac yn ymarfer mewn ffordd briodol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân a hyfforddiant cymorth cyntaf
- Sicrhau bod yr unedau laser yn cael eu gwasanaethu ar adegau priodol
- Rhoi cofrestr triniaethau gynhwysfawr ar waith a'i chynnal.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cofnodion cleifion cynhwysfawr, gan gynnwys ffotograffau
- Cafwyd adborth da gan y cleifion am y gwasanaeth a ddarparwyd.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Perchennog y clinig oedd y rheolwr cofrestredig ac unig weithredwr y peiriannau laser. Dangosodd ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i gleifion. Gwelsom agwedd gadarnhaol tuag at adborth a gwneud gwelliannau.

Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn ffordd ddiogel.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Prosesau clir i ymdrin â chwynion a digwyddiadau o bwys.

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan gleifion

Roedd ymatebion y cleifion i holiadur AGIC yn gadarnhaol, gan ganmol glendid y clinig, arbenigedd y staff, y gwasanaeth wedi'i bersonoli a'r ffaith y gellid ymddiried yn y gwasanaeth. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*“Rwyf wrth fy modd yn mynd i Clinic 10 i gael gwasanaeth wedi'i bersonoli a chanlyniadau arbennig mewn clinig a lleoliad hardd.”*

*“Lleoliad glân, preifat a hamddenol iawn. Hwn yw'r clinig gorau i mi ddod o hyd iddo ar gyfer triniaethau harddwch esthetig!”*

*“Mae Clinic 10 yn cynnig gwasanaeth ardderchog ac rwy'n ymddiried yn llwyr yn y clinig.”*

#### Urddas a pharch

Roedd yn bosibl cloi drws yr ystafell drin ac roedd gwydr barugog a bleinds wedi'u cau ar y ffenestri allanol er mwyn sicrhau preifatrwydd cleifion yn ystod triniaethau. Roedd cerddoriaeth yn cael ei chwarae yn yr adeilad i hyrwyddo preifatrwydd y cleifion yn ystod triniaethau.

Cadarnhaodd y gweithredwr y gall cleifion newid, pe bai angen, yn yr ystafell drin y gellir ei chloi a bod aelodau o'r staff yn gadael yr ystafell er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y claf.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn teimlo bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch a bod y staff wedi gwrandio arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau.

#### Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Dywedodd y gweithredwr wrthym fod cleifion yn cael gwybodaeth fanwl yn ystod ymgynghoriadau, er mwyn sicrhau y gallent wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Roedd y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi'n electronig gyda'r cleifion yn llofnodi i gadarnhau eu bod yn rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth ac yn cael ei hatodi i gofnod y claf.

Pe byddai gan y gweithredwr unrhyw bryderon am allu'r claf i roi cydsyniad ar sail gwybodaeth neu am ei addasrwydd i gael triniaeth, byddai'n gwrthod rhoi'r driniaeth honno.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr holl opsiynau triniaeth a'u risgiau a'u manteision, a bod y gost wedi cael ei hegluro iddynt cyn iddynt gael triniaeth.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Roedd gan y clinig wefan a oedd yn darparu gwybodaeth am ei wasanaethau, prisiau a manylion cyswllt. Nid oedd y datganiad o ddiben na'r daflen wybodaeth i gleifion wedi'u cynnwys ar y wefan ond roeddent ar gael i'r cleifion.

Gwnaethom edrych ar y broses gwyno a gwelsom ei bod yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, gan gynnwys â phwy y dylid cysylltu, amserlenni priodol ar gyfer ymateb i gwynion a manylion cyswllt AGIC. Roedd y wybodaeth hon hefyd ar gael yn y daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben.

Gwahoddwyd y cleifion i gysylltu â'r clinig dros y ffôn neu drwy'r wefan fel arfer.

Roedd pawb a atebodd holiadur AGIC yn cytuno bod y staff yn esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud yn ystod y driniaeth, yn gwrando ar y cleifion ac yn ateb cwestiynau.

### **Cynllunio a darparu gofal**

Roedd pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb a phrawf croen cyn cael triniaeth, ac roedd y canlyniadau'n cael eu dogfennu fel rhan o gofnod triniaeth y claf.

Disgrifiodd y gweithredwr drefniadau priodol ar gyfer cael hanes meddygol cleientiaid, ac roedd gweithdrefn ar waith i asesu cleientiaid, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Fel rhan o hyn, roedd y cleifion yn cyflwyno ffurflen hanes meddygol electronig cyn i unrhyw driniaeth ddechrau.

At hynny, roedd yn ofynnol cynnal ymgynghoriad cyn triniaeth er mwyn cofnodi hanes meddygol, cynnal archwiliad ac asesiad a thynnu ffotograffau fel y bo'n briodol. Yna, byddai'r gweithredwr yn trafod opsiynau triniaeth, gan gynnwys risgiau a manteision unrhyw driniaeth. Yn dilyn hynny, byddai angen i'r claf lofnodi a dyddio'r ffurflen ymgynghori. Byddai gwiriadau ar lafar yn cael eu cynnal ym mhob ymweliad dilynol i nodi unrhyw newidiadau ers yr ymgynghoriad cychwynol.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno bod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn iddynt gael triniaeth.

### **Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Gallai pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a'r rhai ag anawsterau symudedd ddefnyddio'r gwasanaethau ar y safle. Roedd mynediad gwastad heb unrhyw risiau i bob rhan o'r safle, ac roedd pob ardal ar y llawr gwaelod. Roedd y toiled yn addas i gadeiriau olwyn ac roedd handlen gydio a larwm brys wedi'u gosod.

Dyweddodd y gweithredwr y gallai dogfennau print bras gael eu llunio ar gais, er nad oeddent yn cael eu darparu fel mater o drefn.

Roedd pawb a atebodd holiadur AGIC yn cytuno nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.

### **Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Roedd adborth gan gleifion yn cael ei gasglu drwy anfon negeseuon e-bost ar ôl pob apwyntiad a oedd yn cynnwys dolen i roi adborth ar-lein. Fel arfer, byddai'r cleifion yn rhoi adolygiadau ar-lein neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Dyweddodd y gweithredwr fod adborth yn cael ei adolygu'n rheolaidd a nodwyd bod y cleifion yn cael eu hannog i gysylltu os oedd ganddynt unrhyw broblemau neu bryderon.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Yr Amgylchedd

Roedd y lleoliad yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da yr olwg. Roedd y clinig yn darparu amgylchedd dymunol a chroesawgar i'r cleifion.

Roedd toiled rhywedd cymysg ar gael, gyda chyfleusterau golchi a sychu dwylo priodol. Roedd cegin fach yn cael ei defnyddio i baratoi diodydd poeth.

## Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd gan y clinig bolisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn helpu i gynnal iechyd a diogelwch y staff a'r cleifion yn y clinig.

Gwelsom dystiolaeth o adroddiad cyfredol ar osodiadau trydanol a phrofion offer cludadwy

Ar y cyfan, roedd trefniadau boddhaol ar waith i sicrhau diogelwch tân, gyda diffoddwyr tân a oedd wedi cael eu gwasanaethu'n briodol wedi'u gosod ar y waliau'n gywir gydag arwyddion clir. Roedd yr allanfa dân wedi'i nodi'r glir ac roedd y llwybr dianc yn ddigon amlwg oherwydd cynllun a maint yr adeilad. Roedd asesiad risg tân ar waith a gwnaethom nodi bod y staff wedi mynd i'r afael â'r camau gweithredu a nodwyd. Roedd yr asesiad risg tân yn cael ei adolygu'n anffurfiol bob blwyddyn ac awgrymwyd dylem y dylid cadw cofnodion clir o'r broses hon.

Nodwyd nad oedd arwyddion 'dim smygu' wedi'u harddangos. Ymdriniwyd â hyn yn ystod yr arolygiad a chafodd arwyddion priodol eu harchebu. Nid oedd y gweithredwr wedi cwblhau'r hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân diweddaraf ac awgrymwyd gennym y dylai ei gwblhau.

**Dylai'r rheolwr cofrestredig ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân.**

Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael ac roedd yr holl eitemau yn bresennol ac yn gyfredol. Nid oedd y gweithredwr wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf diweddaraf a gwnaethom argymhell y dylai ei gwblhau.

**Dylai'r rheolwr cofrestredig ymgymryd â hyfforddiant cymorth cyntaf.**

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**

Gwelsom fod pob rhan o'r clinig, gan gynnwys yr ystafell drin, yn lân ac yn daclus yr olwg. Roedd yr adeilad mewn cyflwr da iawn a oedd yn sicrhau bod modd ei lanhau'n effeithiol.

Roedd y gweithredwr wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau a disgrifiodd drefniadau glanhau priodol. Roedd y gweithredwr yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol yn ystod triniaethau, yn defnyddio gorchuddion untro ar gyfer y gwely trin ac yn glanhau'r ystafell a'r cyfarpar rhwng cleientiaid. Roedd yr ystafell drin yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn teimlo bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn a bod y lleoliad yn lân iawn.

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff.

### **Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**

Roedd y gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion 18 oed a throsodd a chadarnhaodd y gweithredwr mai dim ond oedolion oedd yn cael eu trin. Nid oedd cleientiaid yn cael eu hannog i ddod â phlant gyda nhw i'r safle, ond os oedd plant yn bresennol, byddent bob amser yn cael eu goruchwyllo gan eu gofalwyr.

Nid oedd y gweithredwr yn ymwybodol o Weithdrefnau Diogelu Cymru.

### **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gael iddo drwy ddefnyddio'r wefan a/neu'r ap ar gyfer ffôn symudol.**

Roedd y gweithredwr wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu diweddaraf, hyd at lefel 1, a oedd yn briodol ar gyfer staff anghlinigol.

### **Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**

Roedd y ddwy uned laser mewn cyflwr da, yn lân yr olwg ac yn gyson â'r cofrestrriad ag AGIC.

Roedd arwyddion priodol ar ddrws yr ystafell drin i rybuddio pobl bod unedau laser yn cael eu defnyddio. Roedd gan y ddwy uned laser switshis ag allwedd ac roedd yr allweddi yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oedd y peiriannau'n cael eu defnyddio. At hynny, roedd drws yr ystafell drin yn cael ei gadw dan glo pan nad oedd yr ystafell yn cael ei defnyddio.

Gwelsom dystiolaeth fod un o'r peiriannau wedi cael ei wasanaethu a'i gynnal a'i gadw bob blwyddyn o dan gontract â'r cyflenwr. Prynwyd yr ail uned yn newydd ac amlinellodd y gweithredwr gamdealltwriaeth a fu rhyngddo â'r cyflenwr ynghylch cyfnodau gwasanaethu. Felly, nid oedd cofnodion gwasanaethu cyfredol ar gael ar

gyfer yr uned. Fodd bynnag, gwelwyd tystiolaeth o ohebiaeth â'r cyflenwr a oedd yn cadarnhau bod ymweliadau gwasanaethu blaenorol wedi cael eu canslo gan nad oedd peiriannydd ar gael a bod ymweliad â'r gwasanaeth wedi'i drefnu a fyddai'n cael ei gynnal ychydig ddiwrnodau ar ôl arolygiad AGIC.

Gwnaethom awgrymu y dylai'r gweithredwr roi systemau ar waith i sicrhau bod yr unedau yn cael eu gwasanaethu ar adegau priodol, heb ddibynnu ar ddarparwr allanol i fonitro'r gofynion gwasanaethu.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi systemau ar waith i sicrhau bod yr unedau laser yn cael eu gwasanaethu ar adegau priodol.**

Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau sy'n meddu ar y cymwysterau addas. Gwelsom fod dogfennaeth o safon uchel ar waith mewn perthynas ag asesiadau risg, rheolau lleol a phrotocolau trin.

Roedd y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi ymweld â'r safle yn ystod yr wythnosau diwethaf ac roedd adroddiad priodol ar yr ymweliad ar gael.

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid addas ar gael i'r cleifion a'r gweithredwyr, ac roedd yn gyson â'r rheolau lleol a disgrifiodd y gweithredwr wiriadau rheolaidd i sicrhau bod y cyfarpar yn addas i'w ddefnyddio.

#### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd yr unig weithredwr wedi cael hyfforddiant priodol a chyfredol ar ddefnyddio'r unedau laser penodol a hyfforddiant Craidd Gwybodaeth cyffredinol, yn unol â chanllawiau Cymdeithas Laser Meddygol Prydain (BMLA).

Roedd protocolau trin priodol a chynhwysfawr ar waith, wedi'u cymeradwyo gan weithiwr meddygol proffesiynol. Roedd y rhain yn cynnwys technegau trin, paramedrau ac amrywiadau a ganiateir a chymau gweithredu i'w cymryd pe bai digwyddiad andwyol.

Roedd yr ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC yn canmol arbenigedd y gweithredwr. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*“Mae [y gweithredwr] yn meddu ar wybodaeth dda am ei thriniaethau a gan fy mod yn y diwydiant fy hun, ni fyddwn yn ymddiried yn unrhyw un arall i drin fy wyneb neu fy nghorff. Mae'n arbenigwr ac mae'r clinig yn lân iawn.”*

*“Mae [y gweithredwr] yn wybodus ac yn cyfleu'r hyn a fydd yn digwydd mewn ffordd bwyllog a thrylwyr. Fyddwn i ddim yn mynd i unrhyw le arall i gael triniaeth fel hon.”*

### **Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Roedd adborth gan gleifion yn cael ei annog a'i adolygu'n rheolaidd, er mwyn helpu i wella'r gwasanaeth.

Nid oedd unrhyw gyfundrefn archwilio ffurfiol ar waith gan mai'r rheolwr cofrestredig oedd perchennog ac unig weithredwr y cyfarpar.

### **Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu**

Roedd holl gofnodion y cleifion yn electronig ac yn cael eu storio'n ddiogel, gan ddefnyddio gwasanaethau cwmwl. Disgrifiodd y gweithredwr gyfnodau cadw priodol ar gyfer rheoli cofnodion a'u gwaredu.

### **Rheoli cofnodion**

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom fod gwybodaeth gynhwysfawr yn cael ei chofnodi'n electronig. Roedd hyn yn cynnwys manylion adnabod y claf, hanes meddygol, cydsyniad, ffurflenni ymgynghori a hanes triniaethau.

Gwnaethom nodi fod triniaethau'n cael eu cofnodi yng nghofnodion cleifion unigol ond nad oedd unrhyw gofrestr ar wahân i ddangos pob tro roedd uned laser wedi cael ei defnyddio.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi cofrestr triniaethau ar waith i ddangos pob tro y caiff uned laser ei defnyddio, sy'n dangos y canlynol:**

- Enw'r claf
- Dyddiad y driniaeth
- Enw'r gweithredwr
- Natur y driniaeth - gan gynnwys yr ardal a gafodd ei thrin
- Paramedrau'r driniaeth
- Unrhyw ddamweiniau neu effeithiau andwyol.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## **Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**

Y rheolwr cofrestredig oedd perchennog ac unig weithredwr y peiriannau laser ar y safle.

Gwelsom fod tystysgrifau cofrestru AGIC wedi'u harddangos yn glir. Roedd gan y clinig yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant cyflogwr cyfredol.

Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn bodloni'r gofynion rheoliadol.

## **Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**

Roedd gweithdrefn gwyno addas ar waith a oedd hefyd ar gael i'r cleifion. Roedd y weithdrefn yn cynnwys amserlenni priodol ar gyfer ymateb a manylion cyswllt i uwchgyfeirio pryderon at gyrff allanol.

Roedd gweithdrefn briodol ar waith ar gyfer rheoli digwyddiadau a digwyddiadau o bwys, gan gynnwys gofynion hysbysu.

## **Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**

Roedd polisi recriwtio ar waith. Fodd bynnag, y rheolwr cofrestredig oedd yr unig weithredwr ac nid oedd cynlluniau ar waith i recriwtio staff ychwanegol.

## **Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**

Y rheolwr cofrestredig oedd yr unig weithredwr ac roedd yn rheoli ei gofynion hyfforddiant ei hun.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd  | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion  | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder  | Sut cafodd y pryder ei ddatrys   |
|---|---|---|--|
| Gwelsom dystiolaeth fod un o'r peiriannau wedi cael ei wasanaethu a'i gynnal a'i gadw bob blwyddyn o dan gontract â'r cyflenwr. Prynwyd yr ail uned yn newydd ac amlinellodd y gweithredwr gamddealltwriaeth a fu rhyngddo â'r cyflenwr ynghylch cyfnodau gwasanaethu. Felly, nid oedd cofnodion gwasanaethu cyfredol ar gael ar gyfer yr uned. | Mae'n rhaid gwasanaethu cyfarpar yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. | Trafodwyd hyn â'r rheolwr cofrestredig. | Gwelwyd tystiolaeth o ohebiaeth â'r cyflenwr a oedd yn cadarnhau bod ymweliadau gwasanaethu blaenorol wedi cael eu canslo gan nad oedd peiriannydd ar gael a bod ymweliad â'r gwasanaeth wedi'i drefnu ac y byddai'n cael ei gynnal ychydig ddiwrnodau ar ôl arolygiad AGIC. |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Clinic 10

Dyddiad yr arolygiad: 10 Tachwedd 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater  | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|----------------------------|-----------------|-----------------------------------|------------------|----------|
| 1. Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch nac unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad. |                            |                 |                                   |                  |          |

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Clinic 10

Dyddiad yr arolygiad: 10 Tachwedd 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater  | Yr hyn sydd angen ei wella   | Safon/ Rheoliad   | Camau gweithredu gan y gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol | Amserlen       |
|--|--|---|---|------------------|----------------|
| 1. Nid oedd y gweithredwr wedi cwblhau'r hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân diweddaraf. | Dylai'r rheolwr cofrestredig ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân.     | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 26  | Cwblhawyd y cwrs hyfforddiant a darparwyd y dystysgrif.   | Andrea Davies    | Wedi'i gwblhau |
| 2. Nid oedd y gweithredwr wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf diweddaraf                  | Dylai'r rheolwr cofrestredig ymgymryd â hyfforddiant cymorth cyntaf.                     | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 9   | Cwblhawyd y cwrs hyfforddiant a darparwyd y dystysgrif.   | Andrea Davies    | Wedi'i gwblhau |
| 3. Nid oedd y gweithredwr yn ymwybodol o Weithdrefnau Diogelu Cymru.                             | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gael iddo drwy | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 - Rheoliad 16 | Darparwyd tystiolaeth o'r hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu a gwybodaeth am y maes hwn. Ond nid | Andrea Davies    | Wedi'i gwblhau |

|    |   |  |  |   |               |                |
|----|---|--|--|---|---------------|----------------|
|    |   | ddefnyddio'r wefan a/neu'r ap ar gyfer ffôn symudol.   |  | oeddwn yn ymwybodol o'r adnodd ychwanegol sydd ar gael, sef ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru sy'n ffynhonnell wybodaeth arall yng Nghymru.<br>Lawrlwythwyd yr ap ar unwaith.  |               |                |
| 4. | Gwnaethom awgrymu y dylai'r gweithredwr roi systemau ar waith i sicrhau bod yr unedau laser yn cael eu gwasanaethu ar adegau priodol. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi systemau ar waith i sicrhau bod yr unedau laser yn cael eu gwasanaethu ar adegau priodol. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 15 | Dim ond unwaith roedd hyn wedi digwydd yn y gorffennol. Trefnwyd apwyntiad gwasanaethu â'r darparwr ar adeg yr arolygiad ond cafodd ei ganslo gan y darparwr a'i aildrefnu'n brydlon. Mae negeseuon atgoffa bellach ar waith ar Task Manager hefyd. | Andrea Davies | Wedi'i gwblhau |
| 5. | Gwnaethom nodi fod triniaethau'n cael eu cofnodi yng nghofnodion cleifion unigol ond nad oedd   | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi cofrestr triniaethau ar waith i ddangos pob tro y caiff uned                              | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 45 | Wedi'i weithredu ac yn Barhaus.   | Andrea Davies | Wedi'i gwblhau |

|  |  |  |  |  |
|--|--|--|--|--|
| <p>unrhyw gofrestr ar wahân i ddangos pob tro roedd uned laser wedi cael ei defnyddio.</p> | <p>laser ei defnyddio, sy'n dangos y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Enw'r claf</li> <li>• Dyddiad y driniaeth</li> <li>• Enw'r gweithredwr</li> <li>• Natur y driniaeth - gan gynnwys yr ardal a gafodd ei thrin</li> <li>• Paramedrau'r driniaeth</li> <li>• Unrhyw ddamweiniau neu effeithiau andwyol</li> </ul> |  |  |  |
|--|--|--|--|--|

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Andrea Davies**

**Swydd: Rheolwr / perchennog**

**Dyddiad: 12 Ebrill 2026**